# ELIDIR SAIS, bardd a ganai yn niwedd y 12fed ganrif a hanner cyntaf y 13eg.

**Enw:** Elidir Sais
**Rhiant:** Gwalchmai ap Meilyr
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** bardd
**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth
**Awdur:** David Myrddin Lloyd

Canodd englynion marwnad i Rodri ab Owain Gwynedd (bu farw 1195) ac i Ednyfed Fychan. Nid Sais mohono, oblegid dywed Gwilym Ddu (*The Myvyrian Archaiology of Wales*, 277B) fod Elidir yn '  r o ddoethion Môn, mynwes eigion,' a rhydd ei waith gyda chynnyrch prifeirdd eraill yn 'iawn ganon,' neu'n safon i feirdd. Canu crefyddol yw'r rhan fwyaf o'i gynnyrch, ac fe'i ceir yng nghasgliad y Dr. Henry Lewis (a nodyn ar ei ddilysrwydd yn y rhagymadrodd, xi). Nid ymddengys fod Elidir yn gefnogol i bolisi ymosodol Llywelyn Fawr. Cwyna farwolaeth Rhodri yn dost, a dywed nad oes neb bellach ar ôl i 'ystwng treiswyr.' Gwyddom hefyd i Ddafydd ab Owain Gwynedd orfod cilio i Loegr oblegid cynnydd ei nai, ac y mae Elidir yn ystyried hyn fel trais ail yn unig i gipio bedd Grist gan Syladin (*The Myvyrian Archaiology of Wales*, 243A). Nid rhyfedd iddo orfod canu dadolwch i Lywelyn. Ni wêl ym marw'r tywysog hwnnw yn 1240 ond tystiolaeth nad yw treisio 'gweinion' ddim yn tycio (*The Myvyrian Archaiology of Wales*, 243B-4A). Y mae'n amlwg nad oedd ganddo fawr gydymdeimlad â thuedd ei oes yng Nghymru. Nid oedd ffiniau i'w treisio ('Ystyrych pan dreisych dros ffin'), a rhoes ei orau i'w ganu crefyddol. 'Bardd fyddaf i Dduw hyd tra fwyf ddyn.' Sonia am lyfrau llên na ddylid eu hamau, ac y mae manylder rhai o'i syniadau yn awgrymu gwybodaeth o lenyddiaeth grefyddol ei oes. Yn ei farwnad i Ednyfed Fychan fe ategir y traddodiad y sonia Syr J. E. Lloyd amdano (gweler t.684 o'r *A History of Wales*) i'r gwleidydd hwnnw gael gyrfa filwrol. Gwyddom i un o feibion Rhys ap Gruffudd gael ei alw'n ' Sais ' am iddo orfod treulio blynyddoedd o'i oes yn Lloegr. Tybed i agwedd Elidir Sais tuag at Lywelyn Fawr ei orfodi yntau i gilio dros ffin ei wlad? Ceir yn *Rec. Caern.*, 48, enwau tri mab i Walchmai, sef Meilir, Dafydd, ac Elidir. Os mai'r olaf hwn oedd ein bardd, hawdd deall Gwilym Ddu yn ei alw'n '  r o ddoethion Môn.'

## Awdur

**David Myrddin Lloyd**, (1909 - 1981)

## Ffynonellau


*The Myvyrian archaiology of Wales* (Denbigh 1870), 240b-5b

*'Llyfr Coch Hergest' (Jesus College MS. cxi)*, 1143-6

*Hen Gerddi Crefyddol* (Caerdydd 1931) (gol. Henry Lewis)


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Elidir Sais

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q3391376

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/


Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu